



**Ynghylch Gwasanaethau
a Chostau ein Morgeisi**



Swansea Building Society

11-12 Stryd Cradock, Abertawe
www.swansea-bs.co.uk

Ynghylch Gwasanaethau a Chostau ein Morgeisi

1. Awdurdod Ymddygiad Ariannol [The Financial Conduct Authority (FCA)]

Corff goruchwyllo annibynnol yw'r FCA sy'n rheoleiddio gwasanaethau ariannol. Cynlluniwyd y ddogfen hon gan yr FCA i'w rhoi i ddefnyddwyr sy'n ystyried prynu rhai cynhyrchion ariannol penodol. Bydd angen i chi ddarllen y ddogfen bwysig hon. Mae'n esbonio'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i chi a sut y byddwch chi'n talu amdano.

2. Morgeisi pwy sy'n cael eu cynnig gennym?

Rydym ond yn cynnig ein morgeisi ein hunain. Mae angen i'r morgeisi hyn gael arwystl cyntaf dros eich eiddo.

3. Pa wasanaeth fyddwn ni'n ei ddarparu i chi?

Byddwn yn eich cynghori ac yn gwneud argymhelliad ar eich cyfer ar ôl i ni asesu eich anghenion.

4. Beth fydd angen i chi ei dalu am y gwasanaeth hwn?

Pe baech chi'n gwneud cais am forgais gyda ni, bydd gofyn i chi dalu'r ffioedd canlynol:

- Ffi Ymgeisio o £250 na ellir mo'i ad-dalu
- Ffi Adroddiad Prisio o £350 y gellir ei ad-dalu hyd nes y bydd y Prisiwr wedi archwilio'r eiddo a fydd yn diogelu'r morgais;
- Ffi Trefnu a fydd yn gyfwerth â 1% o'r swm yr ydych yn dymuno'i fenthycu oddi wrthym llai'r Ffi Ymgeisio. Er enghraifft, pe baech chi'n dymuno benthycu £100,000 oddi wrthym, byddai'r Ffi Trefnu'n £750, sef £1,000 llai'r Ffi Ymgeisio o £250. Codir y ffi hwn arnoch dim ond os bydd eich cais yn llwyddiannus ac y rhoddir morgais i chi.

Byddwch yn derbyn Darluniad Ffeithiau Allweddol wrth ystyried morgais penodol, a fydd yn dweud wrthyfych am unrhyw ffioedd sy'n berthnasol i'r morgais.

5. Pwy sy'n ein rheoleiddio ni?

Awdurdodir Swansea Building Society, 11/12 Stryd Cradock, Abertawe, SA1 3EW is gan Awdurdod Rheoleiddio'r Prudential a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac Awdurdod Rheoleiddio'r Prudential. Ein rhif ar Gofrestr y Gwasanaethau Ariannol yw 206066.

Ein busnes caniaatâedig yw cynghori ar, trefnu, darparu a gweinyddi morgeisi.

Gallwch wirio hyn ar wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu drwy ymweld â gwefan yr FCA www.fca.org.uk/firms/systems-reporting/register/ neu drwy gysylltu â'r FCA ar **0800 111 6768**.

6. Beth i'w wneud os oes cwyn gennych

Os ydych eisiau cofnodi cwyn, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda:

... yn ysgrifenedig:
Anfonwch at
Swansea Building Society,
11/12 Stryd Cradock,
Abertawe, SA1 3EW

... dros y ffôn: Ffoniwch 01792 483 701

Os na allwch chi ddatrys eich cwyn gyda ni, efallai y bydd gennych hawl i'w chyfeirio at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

7. A ydym ni wedi ein gwarchod gan Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol [Financial Services Compensation Scheme (FSCS)]?

Rydym wedi ein gwarchod gan yr FSCS. Efallai y bydd gennych hawl i iawndal oddi wrth y cynllun os na allwn gwrdd â'n cyfrifoldeb. Mae hyn yn dibynnu ar natur y busnes ac amgylchiadau'r cais am iawndal.

Gwarchodir cynghori ar forgeisi a'u trefnu hyd at derfyn uchaf o £50,000.

Gellir cael gwybodaeth bellach am drefniadau'r cynllun iawndal oddi wrth yr FSCS.